Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Dyddiad y Cyfarfod: 23 Ionawr 2019

Aelod / Swyddog Arweiniol: Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid

Awdur yr Adroddiad: Steve Gadd, Prif Gyfrifydd

Teitl: Llythyr Archwilio Blynyddol 2018-19 gan Swyddfa Archwilio Cymru

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Y Llythyr Archwilio Blynyddol i Gyngor Sir Ddinbych 2018-2019 a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac anfonwyd at Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Derbyn gwybodaeth ar gyfer Llythyr Archwilio Blynyddol Cyngor Sir Ddinbych 2018 – 19, gan Swyddfa Archwilio Cymru (Atodiad 1).

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Argymhellir bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r Llythyr Archwilio Blynyddol i Gyngor Sir Ddinbych 2018-19 gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r Llythyr Archwilio Blynyddol i'r Pwyllgor. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno canfyddiadau a negeseuon canolog. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn croesawu'r llythyr ac yn edrych ymlaen at barhau'r berthynas waith ardderchog sydd gennym gyda'n Harchwilwyr Allanol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae darparu gwybodaeth ariannol yn brydlon ac yn gywir yn cyfrannu at foderneiddio'r Cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd ac mae'n galluogi'r preswylwyr i graffu ar weithgareddau'r Cyngor.

**6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?**

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Ddinbych drwy gydol y broses archwilio ac mae Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion sy'n codi o waith archwilio Swyddfa Archwilio Cymru.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Llunio Llythyr Archwilio Blynyddol yw rhan olaf darparu sicrwydd bod y Datganiad Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn rhoi barn wir a theg ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae'n braf nodi eto bod yr archwiliad yn ddiamod.

Mae'r llythyr yn amlygu'r amgylchedd ariannol anodd parhaus mae'n rhaid i'r Cyngor weithio ynddo, fel pob llywodraeth leol ar draws Cymru a'r DU. Mae Aelodau'r Cabinet a'r Cyngor yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar gynigion y Cyngor i ddelio gyda'r sefyllfa.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y risg yn y pen draw yw na fydd y Datganiad Cyfrifon yn cael ei gynhyrchu ar amser, neu ei fod yn cael ei gynhyrchu gyda gwallau sylweddol a fyddai'n arwain at weld SAC yn amodi'r cyfrifon. Byddai canlyniad felly yn cael effaith andwyol ddifrifol ar enw da CSDd.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r llythyr yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n codi o gyfrifoldebau statudol Swyddfa Archwilio Cymru o dan y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'u cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Yn benodol mae Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Cyngor i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif yn cadarnhau eu bod wedi cwblhau gwaith archwilio'r cyfrifon.